**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1454
Ein cyf/Our ref SM/10182/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

20 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1454: Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl brys i dadau newydd.

Gallaf gadarnhau bod y rhaglen iechyd meddwl strategol yng Ngweithrediaeth y GIG yn gweithio gyda hyfforddai uwch mewn seiciatreg, a gyflogir gan dîm amenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ddatblygu llwybr i gefnogi tadau a phartneriaid unigolion o dan ofal y tîm iechyd meddwl amenedigol arbenigol.

Ar ôl ei ddatblygu, y bwriad yw rhoi'r llwybr hwn ar waith ar draws yr holl dimau iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Mae'r canllaw arfer gorau, y cyfeirir ato mewn gohebiaeth flaenorol, yn dal i gael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei lywio gan y gwaith hwn.

O ran datblygu'r strategaeth iechyd meddwl a llesiant a'r strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio, rydym wedi cyhoeddi crynodebau'r ymgynghoriad. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio ar y strategaethau terfynol a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,

**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.